

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 11 Hydref 2021

SL(6)055 – Rheoliadau’r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Gwnaed [Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol \(Diben Masnachol\) \(Amodau\) \(Cymru\) 2021](#) (“y Rheoliadau”) gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 28(4), 28(5)(b) a 28(6)(c) o Ddeddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Rheoliadau'n rhagnodi amodau ychwanegol y mae rhaid i brif gyngor eu bodloni cyn arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol i wneud pethau at ddiben masnachol. Rhaid i brif gyngor baratoi a chymeradwyo achos busnes i gefnogi arfer arfaethedig o'r pŵer. Yn ogystal, mae'n ofynnol i brif gyngor gyhoeddi unrhyw achos busnes a gymeradwyir yn unol â'r Rheoliadau, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae'n ofynnol i brif gyngor adennill unrhyw gostau y mae'n mynd iddynt o ran unrhyw beth y mae'n ei gyflenwi i gwmni y mae'n arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol drwyddo, oddi wrth y cwmni hwnnw.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r sefydliadau a'r personau hynny y mae'n debygol y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt.

Mae Gorchymyn 2021 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) 2021, a wnaed ar 3 Mawrth, yn dod â'r pŵer cyffredinol i rym ar gyfer prif gynghorau ar 1 Tachwedd 2021. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar yr un dyddiad.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar:

Yn dod i rym ar: 01 Tachwedd 2021



SL(6)057 – Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Gwnaeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) ddiwygio Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (“Deddf 1979”) trwy gyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer henebion cofrestredig yng Nghymru¹.

Mae cytundeb partneriaeth dreftadaeth yn drefniant gwirfoddol ar gyfer rheoli un neu fwy o asedau hanesyddol dynodedig yn yr hirdymor. Mewn perthynas â henebion cofrestredig, gellir gwneud cytundebau o'r fath rhwng Gweinidogion Cymru a pherchennog heneb gofrestrdedig yng Nghymru neu berchennog tir sy'n ffinio â heneb gofrestrdedig o'r fath, neu yng nghyffiniau heneb gofrestrdedig o'r fath.

Er bod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cytundebau partneriaeth dreftadaeth wedi'i nodi yn Neddf 2016, roedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach (trwy reoliadau) ynghylch cynnwys cytundebau o'r fath a'r gweithdrefnau ar gyfer eu cytuno a'u terfynu.

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch cytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer henebion cofrestredig yng Nghymru, gan ategu darpariaethau Deddf 1979.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979

Fe'u gwnaed ar:

Fe'u gosodwyd ar:

Yn dod i rym ar: 01 Ionawr 2022

¹ Hefyd, cyflwynodd Deddf 2016 gytundebau partneriaeth dreftadaeth ar gyfer adeiladau cofrestredig. Ymdrinnir â'r rhain yn Rheoliadau Adeiladau Cofrestredig (Cytundebau Partneriaeth Dreftadaeth) (Cymru) 2021, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

